

SIR GAERFYRDDIN


Nodiadau Natur

Partneriaeth Natur
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership



GORFFENNHAFF-MEDI 2024

Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfoeth o fywyd gwyllt. Mae'r 'Nodiadau Natur' hyn yn nodi rhai o'r uchafbwyntiau er mwyn ein hannog ni i gyd i fwrw golwg fanylach o'n hamgylch ni – mae hyd yn oed y pethau mwyaf cyffredin yn arbennig. Ydych chi wedi gweld rhywbeth diddorol? Beth am anfon llun atom?



I gael rhagor o wybodaeth am natur yn y sir,
darllenwch ein Cynllun Adfer Natur:
sirgar.llyw.cymru/bioamrywiaeth

Anfonwch eich lluniau at: Biodiversity@sirgar.gov.uk



Crang-gorryn Gwyrdd

Gwelodd un o griw o selogion bywyd gwyllt sy'n cyfarfod yn rheolaidd ym Mrechfa y corryn hwn yn *Keepers*, safle Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghoedwig Brechfa. Fe'i [gwelir](#) yn bennaf mewn coetiroedd ac yn hanner deheuol Lloegr, ac nid, yn ôl cofnodion cyfredol, ymhellach i'r gorllewin na'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, felly roedd gweld y corryn hwn yn ddarganfyddiad gwych. Gan mai dim ond 5 mm yw hyd ei gorff, mae'n anodd ei weld.

Mae cofnodi mewn grwpiau yn ffordd wych o wella gwybodaeth, sgiliau a hyder – ac o gymdeithasu!

Fe'i rhyddhawyd yn ôl i Keeper's ychydig ddyddiau'n ddiweddarach.



Ymylon blodeuo hwyr

Yn ddiweddarach yn yr haf gall Erwain (*Filipendula ulmaria*) a Helyglys Hardd (*Chamaeenerion angustifolium*) ddominyddu rhai ymylon ffyrdd. Mae'r doreth o flodau lliw hufen a phinc y planhigion hyn yn cynnal amrywiaeth o infertebratau ac yn bywiogi ein teithiau cerdded.

Dywedir bod y Frenhines Elizabeth I wedi ffafrio Erwain yn fwy na dim arall. Yng Nghymru, yn ôl llên gwerin fe'i hystyriwyd yn eithaf peryglus i unrhyw un syrthio i gysgu mewn cae lle mae digonedd ohono.

Mae helyglys hardd yn gallu cytrefu ardaloedd newydd oherwydd ei hadau sydd wedi'u haddasu'n arbennig - wedi'u ffitio â 'parasiwtiau' bach, cotwmaidd, maen nhw'n gallu gwasgaru ar draws pellteroedd hir ar yr awel leiaf. Gall pob planhigyn gynhyrchu hyd at 80,000 o hadau a gall y gwres o danau a choelcerthi helpu i'w egino.



Pryf Sgorpion

Nid yw'r Pryf Sgorpion (*Panorpa communis*) mor arswydus ag y mae'r enw'n ei awgrymu. Y gynffon debyg i bigiad, mewn gwirionedd, yw'r cydwyr gwrywaidd a ddefnyddir ar gyfer paru. Mae ganddynt estyniad hir, tebyg i big o'i ben sy'n cael ei ddefnyddio i fwydo. Maen nhw'n chwilota ar bryfed marw ac yn aml yn dwyn cynnwys gweoedd pryfed cop.

Mae paru fel arfer yn digwydd gyda'r nos a gallai'r fenyw ladd y gwryw - felly mae pryfyn marw neu lwyth o boer fel anrheg yn aml yn helpu eu hachos!

Cadwch lygad amdany'n nhw mewn gerddi, perthi a choedwigoedd.



Gwybedyn y Madarch

Mae'r gwybedyn rhyfedd hwn wedi'i heintio â'r ffwng pathogenig *Entomophthora muscae*. Ar ôl iddo gael ei heintio, mae'n marw ymhen 5-7 diwrnod. Ar ddiwedd ei oes mae'n tueddu i gropian i bwynt uchel, sythu ei goesau ôl ac agor ei adenydd – fel yn y llun hwn, ymddygiad sy'n sicrhau bod y sborau ffwngauidd yn cael eu gwasgaru mor eang â phosib.

Mae'n gyffredin ac mae i'w weld yn eithaf aml ym Mhrydain, ond roedd yn dal yn dipyn o sioc i'w weld!



Ffasgedd

Mae ffasgedd neu grib yn cael ei achosi pan fydd y meristem apical yn ymestyn yn berpendicwlar i'r cyfeiriad tyfu arferol ac yn arwain at wastatau neu lygriad ym meinwe'r planhigyn. Gall effeithio ar y coesyn, y blodyn, y gwreiddiau neu'r ffrwythau. Mae'r term yn deillio o'r Lladin *fascis*, sy'n golygu bwndel.

Mae sawl achos posibl i'r ffenomen anarferol hon, gan gynnwys achosion hormonaidd, genetig, bacteriol, ffwngauidd, firaol ac amgylcheddol. Yma mae wedi effeithio ar flodyn ysgallen - hynod ddiddorol!



Cranc Gwyrdd Cyffredin

Mae'r cranc cyffredin hwn i'w weld o amgylch glannau Prydain ac Iwerddon. Gall benywod gynhyrchu hyd at 185,000 o wyau, ac mae larfâu yn datblygu ar y môr mewn sawl cam cyn eu bwrw olaf i grancod ifanc yn y parth rhynglanwol. Mae crancod ifanc yn byw ymhlith gwymon a morwellt, cyn iddynt gyrraedd oedolaeth. Mae gan y pâr cyntaf o goesau (*pereopods*) ar y crancod llawndwf bigion (*chela*) sydd wedi'u datblygu'n dda. Mae'r rhai ifanc fel yr un a ddangosir yma yn arddangos ystod eang o batrymau brith.



Ymylon caeau â


Yn y gorffennol, roedd ymylon caeau yn cynnal amrywiaeth o blanhigion, ac roedd yr ardaloedd llai cynhyrchiol hyn yn gynefin pwysig i famaliaid bach, infertebratau ac adar. Gall yr ymylon mwy naturiol hyn fod o fudd i'r fferm hefyd, gan annog pryfed fel buchod coch cwta, sy'n ysglyfaethu ar rai plâu cnydau. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o gynefin â'r o bwys sydd ar ôl yn y sir – yn wahanol i'r gorffennol pan oedd gan bob cymuned ffermio leol ei siâr o rawn neu gnydau gwraidd. Mae'r dirywiad hwn mewn ffermio â'r ynghyd â diflaniad llawer o rywogaethau 'chwyn' cysylltiedig a dirywiad mewn bwyd pryfed wedi cyfrannu at ddirywiad enfawr yn Aderyn y To (ac adar eraill sy'n bwyta hadau fel y Bras Melyn a'r Llinos). Tynnwyd y llun hwn ar ymyl cae haidd yn Sir Benfro lle'r oedd cymysgedd hadau wedi'i hau â phlanhigion blynyddol sy'n gysylltiedig ag â'r gan gynnwys Melyn yr Yd (*Glebionis segetum*).



Pathewod

Codwyd y bocs Pathew hwn (*Muscardinus avellanarius*) fel rhan o brosiect i weld a oedd modd cofnodi'r mamal anodd i'w weld hwn o gwmpas Cronfa Ddŵr Lliedi Isaf. Mae llawer o bathewod wedi'u cofnodi yn yr ardal. Codwyd bocsys yn 2022 wrth ochr y gronfa ddŵr, sydd bellach yn cael ei rheoli gan Gyngor Gwledig Llanelli. Ni chofnododd ecolegwyr unrhyw beth yn 2023 ond mae dyfalbarhad yn talu ffordd ac eleni cofnodwyd Pathew yn defnyddio bocs.

Gall blychau nythu wella ardal ar gyfer pathewod trwy gynyddu nifer y safleoedd nythu a hybu dwysedd lleol y Pathewod. Ond cofiwch fod angen i chi gael hyfforddiant arbennig a bod â thrwydded i'w monitro..



Pryfed Tân

Nid sêr yn awyr y nos yw'r rhain ond y llewyrch gwyrdd o ddau Bryfyn Tân (*Lampyris noctiluca* - mewn gwirionedd chwilod nid mwydod!) a gofnodwyd yr haf hwn ar hyd lôn ger Llanllawddog. Dim ond yr oedolion benywaidd sy'n disgleirio - i ddenu gwrywod. Pan fydd oedolion wedi paru, mae golau'r fenyw yn 'diffodd' ac mae hi'n dodwy ei hwyau ac yn marw. Mae Pryfed Tân yn eithaf cyffredin ond wedi'u dosbarthu'n lleol yng Nghymru ac mae llawer o boblogaethau'n prinhau.

Mae'r larfa deor yn aros felly am un neu ddau o hafau ac yn bwydo ar falwod bach y maent yn eu parlysu cyn eu sugno'n wag. Ddim mor apelgar...



Ysgallen Ddreinwen

Mae'r Ysgallen Ddreinwen (*Carlina vulgaris*) i'w chael ar gynefinoedd sych, yn enwedig ardaloedd calchfaen – felly yn Sir Gaerfyrddin mae'n ffafrio'r arfordir a'r gefnen galchfaen sy'n rhedeg drwy'r sir. Mae ei phen blodau nodedig yn edrych fel ei bod yn marw pan fydd yn llawn ei blodau. Maent yn ffynhonnell neithdar ar gyfer amrywiaeth o ieir bach yr haf, gan gynnwys y Brwmstan a Gweirlöyn y Perthi ac, yn y llun hwn, cacwn.

Mae'r blodau'n ehangu ac yn cyfangu, yn dibynnu ar y tywydd, ac arferent gael eu defnyddio fel baromedrau a'u pinio dros ddrysau ffrynt.



Brithribinau Brown

Ar un adeg roedd de-orllewin Cymru gan gynnwys Sir Gaerfyrddin yn fan lle roedd llawer o Frithribinau Brown (*Thecla betulae*). Bellach, yn nyffryn Teifi y mae eu cadarnle lle nad yw'r cloddiau drain duon y maent yn eu defnyddio i ddodwy eu hwyau (yn benodol y tyfiant ifanc) yn cael eu torri gymaint ag ardaloedd eraill yn y sir.

Mae poblogaethau newydd yn dal i ymddangos. Mae gwirfoddolwyr Gwarchod Gloÿnnod Byw, sy'n gweithio gyda thirfeddianwyr, deiliaid rhandiroedd, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru, yn gweithio yn ardal Llandeilo i wella cynefinoedd addas ac arolygu rhagor o wrychoedd yn yr ardal. Tynnwyd llun y fenyw hon yn fuan ar ôl ymddangos ym mis Awst.



Chwilen Hirgorn Ddu a Melyn


Mae'r Chwilen Hirgorn Ddu a Melyn nodedig hon (*Rutpela maculata*) gydag antenau hir iawn i'w chanfod fel arfer ar hyd perthi ac ymylon coetir lle gwelir yr oedolion amlaf ar flodau'r Ddraenen Wen neu'r wmbel (fel yn yr achos hwn). Mae'r larfa yn byw mewn pren pwdr am 2-3 blynedd ac yn dod allan fel oedolion ym mis Mai. Fel chwilod llawndwf dim ond am ychydig mwy o wythnosau maen nhw'n byw.



Gweirlöyn y Cloddiau

Gellir gweld Gweirlöyn y Cloddiau (*Lasiommata megera*) mewn mannau agored, heulog ac mae'n tueddu i dorheulo ar waliau, creigiau a mannau caregog. Mae'n un o lawer o rywogaethau sy'n prinhau yn y sir, a welir amlaf ar hyd yr arfordir y dyddiau hyn, a phrin iawn y'i gwelir yn rhannau eraill o'r sir.

Mae'r gwrywod yn patrolio'n gyflym ac yn isel dros y ddaear, yn chwilio am fenywod ac mae ei lindys yn bwydo ar amrywiaeth o laswelltau, gan ein hatgoffa o'r manteision sydd ynghlwm wrth adael ardaloedd o laswellt hirach yn y tir rydym yn ei reoli.



Duegredyn Cefngoch

Mae gan y Duegredyn Cefngoch (*Asplenium ceterach*) ffrond lledraidd gyda lliw rhwd ar y cefn. Gellir ei ganfod mewn ardaloedd â chalhfaen, holltau creigiau a waliau cerrig. Mae'n gallu gwrthsefyll sychder a bydd yn cyrlïo ei ffrondau i mewn fel mai dim ond yr arwyneb brown sy'n weladwy. Yna mae'n adfywio pan gaiff ei ailhydradu gan law. Mae'r Duegredyn Cefngoch wedi'i ddefnyddio at ddibenion meddyginiaethol ers canrifoedd. Fe'i cofnodwyd mewn testunau hanesyddol fel perlyisiau meddyginiaethol a ddefnyddiwyd gan yr hen Roegiaid a Rhufeiniaid, a oedd yn credu bod ganddo briodweddau iachâd ar gyfer amrywiaeth o anhwylerau.



Parneriaeth Natur Sir Gâr

